

476/61

**HANES – HI6**

**UNED 6 (Asesiad Synoptig)**

**ASTUDIAETH FANWL 8**

**UNO'R EIDAL, tua 1856-1871**

A.M. DYDD GWENER, 23 Mehefin 2006

50 munud (o arholiad 1 awr 40 munud)

### **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

### **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

### **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau neu'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 6

## ASTUDIAETH FANWL 8

## UNO'R EIDAL, tua 1856-1871

*Atebwch un cwestiwn.*

*Atgoffir ymgeiswyr y dylai eu hatebion ddangos ymdriniaeth synoptig o'r cwestiwn sy'n dwyn ynghyd, lle bo'n addas, agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol ar y testun.*

### 1. Rôl y Babaeth yn y broses o uno'r Eidal, tua 1856-1871

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

#### Ffynhonnell A

'Mae'n rhaid i Rufain fod yn brifddinas yr Eidal, oherwydd heb Rufain, ni allai'r Eidal fod yn llawn sefydledig (*fully constituted*), a hyd nes y llwyddir i gyflawni hynny, bydd ymraniadau ac anawsterau'n siŵr o ddigwydd rhwng gwahanol rannau o'r Orynys. Ond cyn y gall yr Eidal fynd i Rufain mae'n rhaid bodloni dau amod, ei bod yn gwneud hynny mewn cydweithrediad â'r Ffrancod, a heb orfodi'r Eglwys i dderbyn tra-arglwyddiaeth y Wladwriaeth mewn materion ysbrydol.'

[Rhan o araith gan Cavour gerbron Senedd gyntaf Teyrnas newydd yr Eidal (25 Mawrth 1861)]

#### Ffynhonnell B

'Yn 1861, wedi i Napoli gael ei chynnwys yn Nheyrnas newydd yr Eidal, cafodd 66 o esgobion eu harestio gan nad oeddynt wedi ymofyn caniatâd y Brenin cyn ymgymryd â'u swyddi. Rhoddodd y Pab ei ymateb trwy gondemnio rhyddfrydiaeth yn ei "Sylabws o Wallau" yn 1864. Dim ond gwaethygu'r sefyllfa a wnaeth hynny a chryfhau safle'r gwrth-glerigwyr. Cyn belled ag yr oedd y Pab yn y cwestiwn, yr ergyd olaf oedd meddiannu Rhufain yn 1871, gan chwalu ar yr un pryd yr olaf o Daleithiau'r Pab.'

[Mark Robson, hanesydd academiaidd ac arbenigwr ar hanes yr Eidal yn y cyfnod modern, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr cyffredinol, *Italy: Liberalism and Fascism 1870-1945* (1992)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli rôl y Babaeth yn y broses o uno'r Eidal, 1856-1871? [80]

### CYDNABYDDIAETH

Atgynhychir Ffynhonnell B gyda chaniatâd caredig Hodder Arnold.

## 2. Agweddau'r Pwerau Mawr tuag at uno'r Eidal, tua 1856-1871

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

### Ffynhonnell A

'Erbyn rhan olaf 1860, roedd y sefyllfa i'r Arglwydd John Russell yn dyngedfennol. Roedd yn pryderu am y posibilrwydd y gallai Ffrainc ac Awstria gynyddu eu dylanwad yn yr Eidal unedig newydd. Ymosododd Russell, mewn nodyn cyhoeddus, ar lywodraeth unbenaethol (*despotic*) Taleithiau'r Pab a Theyrnas Napoli, gan roi rhybudd clir pe bai unrhyw bŵer arall yn ymyrryd i danseilio'r wladwriaeth newydd, yna y byddai Prydain yn ymyrryd yn filwrol. Ond ni chafodd y nodyn ei anfon, oherwydd bod gan y Frenhines Victoria, a oedd yn fwy cefnogol i Awstria, amheuan ynghylch ei gynnwys. Er hynny, roedd y gefnogaeth a fynegwyd yn y nodyn yn gweithredu fel gwarant ar gyfer y wladwriaeth newydd. Dylid ystyried gweithredoedd Russell, felly, fel rhai o'r pwyaf mwyaf.'

[Martin Collier, hanesydd academiaidd ac arbenigwr ar hanes yr Eidal yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ysgrifennu mewn gwrslyfr arbenigol, *Italian Unification 1821-1870* (2003)]

### Ffynhonnell B

'Fy ateb i oedd: "Gwrandewais ar eiriau Eich Sancteiddrwydd gyda syndod poenus, gan iddynt brofi i mi unwaith eto pa mor gyfan gwbl ddiffygiol yw'r wybodaeth a roddwyd i'ch Sancteiddrwydd am faterion Lloegr. Trwy hyn rwy'n tystio ar fy llw gerbron Eich Sancteiddrwydd fy mod yn mynegi fy argyhoeddiad dyfnaf wrth i mi ddweud mai dymuniad didwyll a chywir Llywodraeth Ei Mawrhydi yw lles yr Eidal, a'i bod yn credu mai'r ffordd orau o gyflawni'r diben hwnnw fyddai trwy ddod ag ymyrraeth dramor i ben, a thrwy adael i'r Eidalwyr roi trefn ar eu materion eu hunain, mewn un ymadrodd, yr Eidal i'r Eidalwyr.'"

[Odo Russell, cynrychiolydd swyddogol Prydain yn Rhufain, mewn llythyr at yr Arglwydd John Russell, Ysgrifennydd Tramor Prydain, yn rhoi adroddiad am sgwrs a gafodd â'r Pab Pius IX (16 Ionawr 1861)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli agweddau'r Pwerau Mawr tuag at uno'r Eidal, 1856-1871? [80]

## CYDNABYDDIAETH

Atgynhyrchir Ffynhonnell A gyda chaniatâd caredig Harcourt Education.